Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bodedern
Y Caban
Ysgol Gynradd Bodedern
Bodedern
Ynys Mon
LL65 3TZ

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**


**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/07/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bodedern yn gylch cyfrwng Cymraeg. Mae'n cyfarfod mewn adeilad symudol ar dir Ysgol Gynradd Bodedern yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae wedi'i gofrestru ers 2013 i dderbyn hyd at 16 o blant fesul sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 9 plentyn tair oed yn mynychu sy'n cael eu hariannu gan yr Adran Addysg.

Daw'r mwyafrif o blant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gartref. Adeg yr arolygiad, nid oedd gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac nid yw unrhyw un yn dod o gefndir ethnig.

Mae'r arweinydd yn ei swydd ers mis Ebrill, 2016. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) diwethaf ym mis Rhagfyr 2014, a chan Estyn ym mis Ebrill 2012.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- bod ymarferwyr yn creu cymuned gynhwysol a hapus iawn
- bod y trefniadau dyddiol yn sefydlog ac effeithiol
- bod ymarferwyr yn ennyn hyder plant a'u hannog i fwynhau dysgu ac ymddwyn yn dda
- eu bod yn rhoi blaenoriaeth uchel i ofal, lles a diogelwch plant
- eu bod yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol i'r plant
- eu bod yn sicrhau cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu hyder i siarad wrth chwarae rôl
- bod ansawdd yr adeilad a chyflenwad yr adnoddau yn dda
- bod ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael iddynt
- bod trefniadau effeithiol ar waith i annog plant i gadw'n iach

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod y rhieni yn gefnogol iawn i'r lleoliad
- bod gan yr arweinydd a'r person cofrestredig ymroddiad i ddyfodol y lleoliad
- eu bod wedi mabwysiadu holl bolisïau a chanllawiau'r Mudiad Meithrin gan sicrhau rheolaeth gadarn
- bod y pwyllgor rheoli newydd yn cynnwys cynrychiolaeth gadarn o arweinwyr o'r gymuned leol i sicrhau sefydlogrwydd ac arweiniad heriol i ddatblygiad y lleoliad
- bod ganddynt ddealltwriaeth o werth y lleoliad a'r meysydd i'w gwella
- bod yr arweinydd a'r person cofrestredig yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawes ymgynghorol a'r Mudiad Meithrin i ddatblygu'r lleoliad ymhellach.
- bod yr ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cydrannu ymdeimlad cryf o bwrpas
- bod gan y staff agweddau proffesiynol a gweithredol tuag at hyfforddiant
- bod y lleoliad yn cadw trefn ar faterion ariannol a gweithio'n ddiwyd i ddarparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn modelu iaith a herio plant i ddefnyddio iaith newydd yn eu gweithgareddau

A2 Sicrhau fod y pwyllgor rheoli yn nodi cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun datblygu

A3 Ffurfioli materion ariannol a sicrhau arian wrth gefn i gynnal dyfodol y lleoliad

A4 Darparu cyfleoedd i'r ymarferwyr rannu ymarfer dda gyda lleoliadau eraill

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Ddim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Ddim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cynlluniau'r lleoliad yn darparu profiadau dysgu da yn yr ardal dan do a thu allan i ennyn diddordeb yr holl blant. Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw priodol i bob maes dysgu gan fodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Mae'r strwythur yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant o fewn themâu perthnasol, megis 'Y Fferm'. A thrwy hyn, maent yn cydlynu datblygiad y plant a'u hannog i wneud cynnydd.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau corfforol plant drwy ddefnydd o offer bach megis sisyrnau, pensiliau lliw a brwshys paent. Darparant gyfleoedd rheolaidd tu allan yn yr ardal i blant ddatblygu eu medrau wrth drin offer mwy megis si-so a cherbydau symudol amrywiol. Maent hefyd yn darparu rhai cyfleoedd buddiol i blant redeg yn egnïol ac i ddawnsio'n rhydd i gerddoriaeth.

Maent yn darparu cyfleoedd cymwys iawn i blant ddatblygu dealltwriaeth o'u byd a'u hardal leol o fewn themâu. Er enghraifft, maent yn trafod lliw, siâp a maint llysiau cyn ymweld â'r siop leol i sylwi ar eu gwerthiant. Ar ôl sgwrsio am anifeiliaid fferm, ant ar daith i fferm gyfagos i sylwi arnynt yn eu cynefin.

Mae'r ymarferwyr yn hybu plant i sylweddoli bod angen trin popeth byw gyda gofal. Er enghraifft, maent yn gwahodd gwraig fferm leol heibio i arddangos cywion bach newydd eu hesgor a son am eu gofalaeth. Maent hefyd yn cael profiad o blannu hadau ac archwilio eu tyfiant. Mae'r lleoliad yn creu cyfleoedd perthnasol i blant arbrofi gyda lliwiau a phatrymau i ddatblygu eu medrau creadigol. Enghreifftiau da o hyn yw eu dehongliadau naturiol o siâp a lliw anifeiliaid fferm a'r cywion.

Maent yn creu cyfleoedd gwerth chweil i blant wrando ar storiâu perthnasol. Er enghraifft, yn dilyn un stori, mae'r plant yn cael cyfle i fyseddu sebon a brwshys amrywiol mewn cafn dŵr wrth sgwrio anifeiliaid tegan yn lan. Yn dilyn y profiad

ymarferol, maent yn trafod manteision ac anfanteision y brwshys megis brwsh dannedd, brwsh gwallt a brwsh llawr.

Bryd hynny, mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i greu diddordeb plant yn y llyfrau gwahanol a modelu sut i drin llyfrau.  Maent yn sicrhau siawns rheolaidd i blant ddilyn cyfarwyddiadau; er enghraifft wrth sgwrsio mewn cylch, wrth dacluso ac ail drefnu’r ystafell ar gyfer eu byrbryd.  Mae’r cyfleoedd i blant ddatblygu hyder i gyfathrebu wrth chwarae rôl ddychmygus yn y siop, ar fuarth y fferm ac yn y gegin yn gryfder.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddeall pwrpas ysgrifennu wrth ddatblygu eu medrau cynnar; er enghraifft, wrth eu hybu i ffurfio llythrennau yn glir.  Maent yn trefnu cyfleoedd cyson i blant adnabod eu henwau; megis wrth hunan gofrestru, adnabod mis eu pen-blwydd a labelu eu cynnyrch ar y wal.

Maent yn sicrhau cyfleoedd dyddiol i ddatblygu medrau rhifedd plant fel yn ystod amser cylch wrth gyfri offer, adnabod rhifolion ar draws pob maes dysgu a chanu rhigymau rhif.  Mae ymarferwyr yn cynllunio’n systematig i blant ddosbarthu gwrthrychau o wahanol faint, siâp a lliw yn gywir, er enghraifft yn y cafn tywod.  Maent hefyd yn creu cyfleoedd effeithiol iawn i blant ddysgu a deall geirfa fathemategol wrth ddidoli llysiau yn y cafn pridd, megis tatws mawr a bach, a moron hir a byr.  Maent yn creu rhai cyfleoedd effeithiol i blant i ddefnyddio’r medrau a’r eirfa benodol hwn; er enghraifft, wrth chwarae rôl yn y siop llysiau.

Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau meddwl a’u hannog i ddatrys problemau trwy ddweud eu barn a gwneud penderfyniadau.  Er enghraifft, wrth gyfeirio tegan mecanyddol.  Fodd bynnag, nid yw’r holl ymarferwyr bob amser yn cymryd cyfle i gyfoethogi iaith y plant mwy abl.

Maent yn cynllunio cyfleoedd da i'r plant ddysgu am eu treftadaeth trwy ddathlu Dydd Crempog a Dydd Gŵyl Ddewi.  Bryd hynny, mae’r plant yn dysgu am wisgoedd, bwydydd a chaneuon traddodiadol Cymreig.  Maent yn ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth plant o ddiwylliannau eraill yn briodol drwy ddathliadau, lluniau amrywiol a doliau o dras wahanol.

**Addysgu:  Digonol**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant a dealltwriaeth sicr o ofynion y Cyfnod Sylfaen.  Maent yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt yn enwedig o ran datblygu annibyniaeth a mynegi eu hunain yn hyderus.  Maent oll yn cymryd rhan yn y cynllunio ac yn cael eu briffio’n glir ynglŷn â’r hyn a ddisgwylir iddynt ei wneud.

Mae ystod ac ansawdd y dulliau addysgu'n llwyddiannus.  Mae’r ymarferwyr yn codi ymwybyddiaeth plant a deffro eu chwilfrydedd trwy eu dewis o themâu, gweithgareddau, caneuon a rhigymau hwyliog.  Maent yn ysgogi diddordeb plant mewn geiriau trwy ddarllen storiâu’n ddyddiol a modelu sut ymdrin â llyfrau.

Mae ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd pwrpasol i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol.  Maent yn sicrhau cydbwysedd da rhwng

gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn ac eraill a gânt eu harwain gan oedolyn. Mae'r ymarferwyr yn cyflwyno tasgau ffocws ysgogol i ennyn diddordeb naturiol plant. Enghraifft dda o hyn yw gweithio tegan mecanyddol i lanio ar luniau anifeiliaid fferm yn gywir. Maent oll yn sicrhau bod y plant yn glir am yr hyn a ddisgwylir ganddynt fel eu bod yn dyfalbarhau ar dasgau yn llwyddiannus.

Mae llif y sesiynau yn briodol ac mae ymarferwyr yn cyflwyno gweithgareddau sy'n ysgogi'r plant o bob gallu yn effeithiol. Serch hynny, ar brydiau nid yw bob ymarferwr yn cynnig cymhelliant digon pendant wrth ymyrryd yng ngweithgareddau rhydd y plant. Er enghraifft, maent weithiau yn colli cyfle i fodelu iaith trwy ail adrodd geirfa a chymalau newydd a chymell plant i ddefnyddio iaith newydd yn enwedig yn ystod y gweithgareddau rhydd.

Mae'r holl ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn naturiol ac effeithiol iawn. Dilynant drefn gyson gan ddangos parch tuag at bob plentyn. Enghraifft dda o hyn yw eu cymeradwyaeth parod o ymdrechion sydd yn ennyn hyder ac annibyniaeth plant yn llwyddiannus iawn.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac maent yn cofnodi asesiadau i fesur eu cynnydd. Maent wedi dechrau defnyddio'r deilliannau i gynllunio camau dysgu nesaf y plant i gyfatebu'n briodol a'u hanghenion.

Maent yn cadw rhieni'n hysbys am gynnydd eu plant drwy drafodaethau anffurfiol gydol y flwyddyn. Mae'r rhieni yn derbyn cofnod deniadol o waith eu plentyn ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r arfer o gynnwys rhieni yn y broses o asesu i'w galluogi i gyfrannu i ddatblygiad eu plant ar y gweill ond nid yw wedi gwreiddio'n llawn eto.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a gofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch plant. Mae gan yr holl staff gymwysterau a phrofiad addas ac mae'r gymhareb o oedolion i blant yn hael. Mae'r trefniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn dda. Mae plant yn mwynhau byrbryd iach ac mae ymarferwyr yn arddangos ymwybyddiaeth gwerth chweil o ofal plant. Enghreifftiau penodol o hyn yw bod ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Maent hefyd yn torri ffrwythau i faint addas ar gyfer plant ifanc. Maent yn trefnu cyfleoedd buddiol i blant gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau egnïol i gadw'n iach a heini.

Mae systemau priodol yn eu lle i nodi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth gan asiantaethau arbenigol fel bo'r gofyn.

Mae trefniadau'r lleoliad i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn fuddiol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i fyfyrio a rhyfeddu, er enghraifft, wrth arsylwi cywion newydd eu hesgor. Hefyd, maent yn cyd-adrodd gweddi syml cyn bwyta i greu mewn awyrgylch dawel.

Mae'r holl staff yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu anniddigrwydd. Maent oll yn fodelau da o garedigrwydd a thegwch ac mae'r plant yn eu hefelychu. Maent yn hybu datblygiad cymdeithasol

drwy ysgogi'r plant i ddatblygu agweddau goddefgar ac i ddysgu cydweithio'n hapus a chymryd eu tro'n gwrtais wrth chwarae. Maent yn annog plant i ddysgu am ddiwylliannau eraill yn dda trwy ddathlu Blwyddyn Newydd Tseiniaidd. Bryd hynny, byddant yn gwisgo i fyny, symud i gerddoriaeth a mwynhau blasu bwydydd Tseiniaidd. Mae'r ymarferwyr hefyd yn codi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill wrth dynnu sylw at luniau a doliau o wahanol wledydd.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd yn briodol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd addas yn ystod amser byrbryd i ailgylchu bwydydd a phapur gwastraff ar wahân.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau addas i amddiffyn plant gan gynnwys asesiadau risg cynhwysfawr. Maent yn recriwtio staff yn ddiogel ac mae'r ymarferwyr yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd a phriodol yn y maes. O ganlyniad, mae trefniadau lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gartrefol a chynhwysol. Mae iddo gyflenwad o ymarferwyr a chanddynt gymwysterau cadarn a phrofiad addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r berthynas weithredol rhwng yr oedolion a'r plant yn naturiol a chynhaliol iawn. Mae hyn yn sicrhau fod plant yn teimlo'n hapus iawn a diogel. Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau pwrpasol sy'n ennyn diddordeb plant yn llwyddiannus iawn ac am gyfnodau sylweddol. Maent yn sicrhau bod yr holl blant yn manteisio'n gyfartal ar amrediad o weithgareddau. O ganlyniad, mae plant yn cymryd rhan yn dda ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r lle sydd ar gael iddynt yn effeithiol. Mae'r amgylchedd dan do yn ddifyr ac ysgogol a gwnânt ddefnydd priodol o'u hardal awyr agored a'r gymuned leol. Maent yn trefnu'r ardal dan do yn effeithiol i ardaloedd fel siop groser, buarth fferm, ac amser cylch. Mae'r arddangosfeydd yn ddeniadol iawn ac yn dathlu ymdrechion plant yn hynod fuddiol. Mae'r adnoddau eraill yn hybu'r dysgu yn dda; er enghraifft, lluniau a geirfa i gyd-fynd a'r themâu, misoedd pen-blwydd bob plentyn, siart dywydd a llyfrau deniadol am fywyd ar y fferm. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i ddefnyddio'n dda. Mae'r lleoliad hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o fuarth yr ysgol a lleoliadau o gwmpas y pentref i gyfoethogi eu themâu amrywiol.

Mae gan y lleoliad amrediad o adnoddau pwrpasol o ansawdd. Yn ddiweddar, ac yn unol â'u blaenoriaethau, maent wedi benthyg cyflenwad o anifeiliaid fferm tegan i ysgogi diddordeb y plant yn eu hastudiaeth o fywyd ar y fferm. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar brofiadau dysgu plant ac ar ddatblygiad eu medrau llythrennedd a chreadigol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd a'r person cofrestredig newydd ymroddiad i ddyfodol y lleoliad ac maent yn cydrannu gweledigaeth i'w ddatblygu ymhellach.

Er bod bob ymarferwr yn newydd i'w rôl, llwyddodd yr arweinydd i sicrhau bod gan bob un ddealltwriaeth dda o'i rôl a'u dyletswyddau dyddiol. O ganlyniad, maent oll yn rhannu ymdeimlad o bwrpas ac maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ymroddedig i ddarparu profiadau dysgu ysgogol i'r holl blant.

Mae hyn yn creu ethos cartrefol a phwrpasol lle mae'r plant yn hapus iawn ac yn meithrin hyder ac annibyniaeth. Mae bob ymarferydd yn meddu ar ddisgwyliad uchel ohono ei hun ac mae hyn yn arwain at safon dda o ofal a darpariaeth. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu ystod eang o brofiadau pwrpasol iddynt.

Mae'r pwyllgor rheoli newydd yn gefnogol ac mae ganddynt ddealltwriaeth o werth y lleoliad i'r rhieni a'r plant, i'r ysgol a'r gymuned leol. Maent hefyd yn ymwybodol o'r meysydd i'w gwella. Un o gryfderau pendant y pwyllgor newydd yw ei fod yn cynnwys cynrychiolaeth gadarn o arweinwyr o'r gymuned leol sydd yn sicrhau sefydlogrwydd ac arweiniad heriol i ddatblygiad y lleoliad.

Mae'r pwyllgor newydd wedi cychwyn ar eu gwaith drwy drafod materion strategol, a dulliau codi arian. Fodd bynnag, nid ydynt eto'n gwbl systematig mewn materion ariannol a digon ffurfiol wrth nodi cynnydd yn erbyn targedau eu cynllun datblygu.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn sicrhau bod ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, yn ogystal â'u bod yn darparu cyfleoedd da i ddysgu am fwyta'n iach a chadw'n heini.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd newydd a'r person cofrestredig newydd gyd-ymrwymiad cadarnhaol i wella'r lleoliad yn barhaus. Mae'r tîm yn trafod sut i wella'r ddarpariaeth. Mae arweinydd yn dechrau defnyddio amrediad o arfarniadau allanol yn effeithiol er mwyn ffocysu ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae gan yr arweinwyr newydd ddealltwriaeth o gryfderau a meysydd gwelliant y lleoliad. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir gyda chymorth athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r adroddiad yn dangos bod yr arweinwyr yn adnabod y cylch yn briodol ac o ganlyniad, mae'r broses hunan arfarnu'n effeithiol.

Mae'r lleoliad yn trosglwyddo llawer o'r wybodaeth i'r cynllun datblygu fel bod y berthynas rhwng y ddwy ddogfen yn glir. Mae'r dystiolaeth yn dangos effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yn enwedig mewn datblygu medrau TGCh. Fodd bynnag, nid oes ganddynt broses systematig i fwydo a diweddaru'r ddogfen. Felly nid yw'n ddigon defnyddiol i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol nac i adrodd i'r pwyllgor rheoli i sicrhau eu cefnogaeth wrth weithio tuag at dargedau penodol.

Gweithredodd yr arweinwyr yn effeithiol yn dilyn arolygiad diwethaf Estyn, gan sicrhau, er enghraifft, wrth wneud defnydd amlach o'r ardal agored er mwyn cyfoethogi'r dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad wedi datblygu ystod fuddiol o bartneriaethau sy’n cyfrannu’n adeiladol at les a gofal plant, ansawdd y ddarpariaeth ac ar arweinyddiaeth.

Mae’r bartneriaeth gyda’r rheini yn gadarnhaol iawn. Mae ymarferwyr yn estyn croeso cynnes i rieni, gofalwyr a phlant ar ddechrau bob sesiwn. Maent yn rhannu gwybodaeth bwrpasol â rhieni am gynnydd a lles eu plant trwy gysylltiad anffurfiol. Cyflwynant ‘Llyfr Trysor’ - cofnod brofiadau a gwaith plant - i bob rhiant ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Byddant yn rhannu polisïau perthnasol a gwybodaeth am unrhyw newidiadau arwyddocaol, ffocws eu themâu a threfniadau codi arian yn llawn ar yr hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mae’r rhieni a’r gymdeithas leol yn cefnogi'r lleoliad yn gyson trwy weithgareddau codi arian. Maent hefyd yn cyfoethogi profiadau’r plant trwy gyflwyno adnoddau iddynt megis dillad chwarae rôl a hetiau i’w diogelu rhag yr haul.

Mae’r bartneriaeth gyda’r ysgol leol yn dda ac mae’r pennaeth yn aelod o’r pwyllgor rheoli newydd sydd yn hybu cysondeb. Maent yn amserlennu’r defnydd o fuarth yr ysgol i sicrhau mwy o gyfle i blant y lleoliad feicio a rhedeg yn rhydd. Mae’r plant yn ymweld â’r ysgol yn ystod tymor yr haf i’w helpu i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae ymarferwyr yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu plant. Er enghraifft, maent yn hybu eu dealltwriaeth o’r byd o’u cwmpas a’u hardal leol drwy eu tywys ar deithiau pwrpasol i’r siopau lleol ac i’r fferm gyfagos.

Mae’r bartneriaeth gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin yn adeiladol ac yn cynorthwyo gwelliant y lleoliad yn fuddiol. Mae’r arweinydd newydd a’r person cofrestredig newydd yn cydweithio a nhw’n effeithiol i ddatblygu’r lleoliad ymhellach.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithlon o staff ac adnoddau i gefnogi’r addysgu a’r dysgu. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan yr holl ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas i weithio gyda phlant ifanc. Gwnânt ddefnydd priodol o fedrau a phrofiad staff i wella’r ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw dyrannu cyfrifoldebau’n effeithiol iawn ymysg yr ymarferwyr am agweddau o iechyd a diogelwch, ac am groesawu rhieni a gofalwyr a hebrwng plant i’r lleoliad ar ddechrau bob sesiwn.

Mae prosesau effeithiol iawn ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr trwy waith y person cofrestredig a chefnogaeth swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin. Mae arweinwyr yn defnyddio’r rhain yn effeithiol i weithredu ar anghenion datblygiad. Enghraifft dda o hyn yw cynnwys bob ymarferydd yn y cynllunio a phennu cyfrifoldebau penodol iddynt; megis am weithgareddau celf. Fel canlyniad, mae diddordeb a chryfderau’r ymarferwyr yn annog plant i fynegi eu hunain yn naturiol a hyderus drwy wahanol gyfryngau gan fwynhau paentio a thynnu llun.

Mae’r holl ymarferwyr yn manteisio ar ystod eang o hyfforddiant i adeiladu ar eu medrau i’w galluogi i fod yn gyfredol wrth eu gwaith. Er enghraifft, mae hyfforddiant

diweddar ar hyrwyddo ymddygiad plant wedi arwain at greu ethos cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr hyd yma wedi gwneud cysylltiadau a lleoliadau eraill i fanteisio ar rannu arfer dda.

Mae'r arweinwyr yn darparu ystod eang o adnoddau pwrpasol i'r ardal dan do a'r ardal tu allan. Mae'r cyflenwad amrywiol yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd plant. Un enghraifft, yw'r popty realistig a grëwyd gan yr ymarferwyr ag sydd yn ennyn trafodaethau brwdfrydig am ffrio, berwi a rhostio bwyd.

Mae'r lleoliad yn blaenoriaethu gwariant yn briodol yn ôl eu hanghenion. Enghreifftiau da o hyn yw'r tractorau mawr symudol a llyfrau i gefnogi datblygiad medrau corfforol. Enghraifft arall yw'r cyflenwad o lyfrau perthnasol i'r themâu i ddatblygu medrau llythrennedd plant. Esiampl dda arall yw'r cydbwysedd yn y dewis o adnoddau, fel menig popty, pramiau a jac codi baw i ennyn brwdfrydedd y plant i gyd i ddatblygu eu medrau creadigol.

Mae'r arweinwyr yn gwneud pob ymdrech i gadw trefn ar faterion ariannol ac i sicrhau bod y grŵp yn parhau'n gynaliadwy, serch hynny, prin yw'r arian wrth gefn.

O ystyried y ddarpariaeth effeithiol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |